

## NEBOSH Rhithwir Ar-lein - Tystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol



### Yn gwyno

The NEBOSH Environmental Management Certificate is a globally recognised and a leading qualification on managing environmental risk.

It is ideal for those looking to develop a career in the environment and sustainability and implement effective environmental management systems in their organisation.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol (yn amodol ar gymhwysedd).

### Dyma'r cwrs i chi os...

... unrhyw un 19 oed a hyn, sy'n byw yng Nghymru, ac mewn cyflogaeth Nid yw'r terfyn cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... unrhyw un sydd angen dealltwriaeth gadarn o egwyddorion rheolaeth amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno dechrau neu ddatblygu eu gyrfa yn y sector hwn.

...rhai sy'n rheolwyr, goruchwylwyr a gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio ar draws sectorau diwydiant sy'n ceisio rhoi systemau rheoli amgylcheddol effeithiol ar waith yn eu sefydliad.

### **Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae Tystysgrif NEBOSH mewn Rheolaeth Amgylcheddol yn benllanw ymchwil helaeth gyda gweithwyr proffesiynol amgylcheddol, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y cwrs yn drylwyr ac yn berthnasol, ond hefyd yn gyraeddadwy ac ymarferol.

Deilliannau Dysgu:

Deall amrywiaeth o faterion amgylcheddol fel y gallwch wella perfformiad amgylcheddol a lleihau newid

Gweithio o fewn system reoli amgylcheddol a chyfrannu at welliant parhaus

Cydnabod agweddau amgylcheddol ac effeithiau cysylltiedig, a gwerthuso effeithiolrwydd rheolaethau presennol

Cefnogi penderfyniadau gyda dadleuon moesegol, cyfreithiol ac ariannol

Deall y cysylltiadau rhwng gweithgareddau eich sefydliad a materion amgylcheddol ehangach

Maes Llafur:

Uned EMC1 - Rheolaeth Amgylcheddol

Uned EMC2 - Asesu agweddau amgylcheddol ac effeithiau cysylltiedig

Asesir Tystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol NEBOSH mewn dwy ran:

Ar gyfer UNED EMC1, asesir ymgeiswyr drwy arholiad ysgrifenedig (i'w lawrlwytho, ei gwblhau a'i gyflwyno o fewn 24 awr), lle mae'n rhaid iddynt ddangos eu gwybodaeth a enillwyd drwy'r cwrs.

Mae Uned EMC2 yn asesiad ymarferol, a gynhelir yng ngweithle'r ymgeisydd. Rhaid cyflwyno'r asesiad ymarferol o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad arholiad a archebwyd.

Rhoddir tystysgrif uned yn dynodi cyflawniad pob uned.

Rhoddir memrwn dyfarnu'r dystysgrif ar ôl cwblhau'r ddwy uned.



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gwybodaeth Ychwanegol

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chysiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 5 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Sylwch y cynhelir Arholiadau NEBOSH ar ddyddiadau penodol yn unig drwy gydol y flwyddyn.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

